20.11.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Noson o Gomedi a drygioni i ddathlu pen-blwydd S4C

Am un noson arbennig, bydd S4C yn trawsnewid i ddarlledu noson gyfan o gomedi i ddathlu pen-blwydd y sianel yn ddeugain oed.

Bydd **Noson Gomedi: Dathlu 40** yn dod yn fyw o Ganolfan S4C Yr Egin yng Nghaerfyrddin, pencadlys S4C rhwng 7.00 a 10.00 ar nos Wener 4 Tachwedd, ac yn cael ei lywio gan y ddau ddoniol Emma Walford a Trystan Ellis-Morris a'r anfarwol Maggi Noggi.

Yn rhan o arlwy'r noson bydd **Rownd a Rownd** a **Pobol y Cwm** yn cael gweddnewidiad gomedi, a bydd cyfle i fwynhau **Dim Byd fel Dim Byd** gyda chyfranydd arbennig fydd yn siŵr o'ch synnu.  Bydd hefyd cyfle i fwynhau **O'r Diwedd** a chwmni drygionius Geraint Rhys Edwards yn ogystal â phennod arbennig o Hansh.

Rhwng y rhaglenni, bydd digonedd o sgetsys, sypreisys, gwesteion arbennig, a pherfformiadau stand yp - ac wrth gwrs ein hoff gomedïwr blewog oren - Gareth yr Ourangutang haerllyg. A bydd criw talentog Cabarela yn dod â dos o glitz a gigls gyda'u perfformiadau byw.

Un sy'n edrych ymlaen at y noson pen-blwydd sy'n addo llond bol o chwerthin yw Trystan Ellis-Morris fydd yn cyd-gyflwyno gyda Emma Walford a Maggi Noggi:

"Mae'r ddau ohonom yn teimlo hi'n gymaint o fraint cael bod yn rhan o ddathliadau pen-blwydd arbennig S4C ond hefyd yn rhan o ddarllediad arloesol fydd yn edrych nôl ar ddeugain mlynedd o ddarlledu yn ogystal ag edrych 'mlaen.

"Noson o gomedi fydd hi yng nghwmni gwesteion arbennig, sgetsys, cerddoriaeth byw a pherfformiadau di-ri ac yn gafael llaw y ddau ohonom ni drwy'r cyfan fydd yr un, yr unig Magi Noggi felly dyn a ŵyr be ddigwyddith?"

Felly ymunwch yn yr hwyl i godi gwydraid i nodi deugain mlynedd ers i S4C ymddangos ar ein setiau teledu!

**Noson Gomedi: Dathlu 40**
**Nos Wener, 4 Tachwedd 7.00 - 10.00 S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Orchard ar gyfer S4C**

20.10.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# A night of Comedy and mischief to celebrate S4C's birthday

For one night only, S4C will be taken over by a whole night of comedy to celebrate the channel's 40th birthday.

**Noson Gomedi: Dathlu 40** will come to life from S4C Yr Egin in Carmarthen, S4C's headquarters between 7.00 and 10.00 on Friday 4 November. The evening will be hosted by the popular presenters Emma Walford and Trystan Ellis-Morris and the hilariously unpredictable Maggi Noggi.

As part of the evening's line-up, **Rownd a Rownd** a **Pobol y Cwm** will have a comedic makeover, and there will be an opportunity to enjoy Y Reservoir Gogs - a new episode of the popular comedy series **Dim Byd** with a special, rather surprising contributor! There will also be a chance to enjoy **O'r Diwedd** and the mischievous company of Geraint Rhys Edwards as well as a special episode of **Hansh**.

Between the programmes, there will be plenty of sketches, surprises, special guests, and stand up performances, and not forgetting our favourite orange furry comedian - Gareth the cheeky Orangutang. The talented, tuneful Cabarela will bring a dose of glitz and giggles with their live performances.

One who is looking forward to the evening, which promises lots of laughs is Trystan Ellis-Morris, who will be co-presenting with Emma Walford and Maggi Noggi:

"We both feel it's such a privilege to be part of S4C's special birthday celebrations but also to be part of an innovative broadcast that will look back on 40 years of broadcasting as well as looking forward.

"We'll all be in for a treat, with a night of comedy in the company of special guests, sketches, live music and countless performances. Keeping us both company through it all will be the one, the only Magi Noggi so who knows what will happen?"

So join in the fun and raise a glass to mark 40 years of our national channel!

**Noson Gomedi: Dathlu 40**
**Friday, 4 November, 7-10pm, S4C**
**English and Welsh subtitles**
**On demand: S4C Clic; BBC iPlayer and other platforms**
**An Orchard production for S4C**